


DATGLYGIAD CLWSTWR CARLAM (DCC) EGWYDDORION SUT BETH YW 'DA'

System a gynlluniwyd i ddod o hyd i'r atebion cywir ar gyfer gwelliant parhaus i gleifion a gweithwyr proffesiynol. Mae datrys problemau a wynebwr mewn gofal o ddydd i ddydd yn un o nodau allweddol y rhaglen DCC.



Cliciwch yr eicon hwn i weld 'Datblygiad Clwstwr Carlam: Sut y Caiff ei Gyflawni'.



Caiff atebion eu rhannu i alluogi newid ehangach i'r system.

Mae timau'n addasu'n barhaus i wella gofal. Mae sefydliadau'n creu diwylliannau ac amgylcheddau sy'n annog ac yn cefnogi myfyrio a datrys problemau.

Mae'r problem yn symud drwy'r system hyd nes y caiff ei datrys

7 Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

6 BI, ALL a'r trydydd sector

5 Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr

4 Clystyrau

3 Cydweithrediadau Proffesiynol

2 Ein Trafodaeth Tîm

1 Ymgynghori yn y Gymuned

7. Mae BPRhau yn arwain gwaith cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng ALLau, Byrddau Iechyd a'r trydydd sector. Maent yn pennu'r cyfeiriad ac yn rhoi'r systemau ar waith i wneud i lefelau 1-6 weithio'n effeithiol.

6. Mae Blau, ALLau a phartneriaid yn y trydydd sector yn defnyddio gwybodaeth o Gynlluniau Sirol i hysbysu a llywio eu penderfyniadau sefydliadol a'u Cynlluniau Strategol. Mae adborth amserol o brofiad cleifion a gweithwyr proffesiynol yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o risgiau a chyfleoedd ar draws y system i lywio'r gwaith o ddatblygu atebion priodol.

5. Mae GCTGau yn cydlynu'r defnydd o'r holl adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion lleol. Mae gwybodaeth gan Glystyrau yn sicrhau bod y Cynllun Sir yn adlewyrchu anghenion iechyd, gofal a lles y boblogaeth yn gywir ac yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion a godwyd ar draws y system.

4. Mae clystyrau'n annog ac yn cefnogi datrys problemau a chydweithio amlddisgyblaethol. Mae clystyrau hefyd yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Sir yn adlewyrchu ac yn ymateb yn gywir i anghenion a blaenoriaethau poblogaeth leol, iechyd, gofal a lles.


3. Mae CPau yn darparu cyfleoedd i gyfoedion asesu ansawdd a diogelwch gwasanaethau lleol, archwilio pryderon a chynnig atebion. Mae'r wybodaeth hon yn llywio asesiadau o anghenion y Clwstwr a chynlluniau amlddisgyblaethol cydweithredol. Mae arweinwyr CP yn sicrhau bod y blaenoriaethau lleol yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng grwpiau proffesiynol.

2. Anogir timau i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion ar gyfer problemau cymhleth neu fylchau mewn gwasanaethau. Pan na ellir datrys y rhain o fewn y tîm gellir mynd â nhw i'r Cydweithrediadau Proffesiynol.

1. Rheolir nifer enfawr o gysylltiadau bob dydd mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Caiff y rhan fwyaf o faterion eu datrys ar y cyswllt cyntaf neu drwy lwybrau lleol. Rhaid i wasanaethau gael eu cynllunio i sicrhau bod anghenion grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau ar y cyron yn cael eu cefnogi.

Sgwrs â chleifion

Problem



Cliciwch yr eicon hwn i weld 'Cynllun y Broses Seilwaith Cymunedol'.



Allwedd: BI: Bwrdd Iechyd ALI: Awdurdodau Lleol CP: Cydweithrediadau Proffesiynol BPRh: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol GCTG: Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr